




CYMORTH
GWIRFODDOLI
GORLLEWIN
MORGANNWG



WEST
GLAMORGAN
VOLUNTEERING
SUPPORT

Gweithredu Unigol i Weithredu Cymunedol

Pecyn cymorth ar gyfer gwirfoddolwyr



Adnodd a rennir ar gyfer
datblygu gwybodaeth





Cynnwys

Adran 1: Diben y Pecyn Cymorth	3
Adran 2: Ymuno â Grŵp sydd eisoes yn bodoli	6
Adran 3: Sefydlu grwp newydd.....	7
Adran 4: Logisteg.....	14
Adran 5: Ceisio cymorth	17
Adran 6: Darllen Pellach.....	20




Adran 1: Diben y Pecyn Cymorth

Rydych wedi bod yn gwirfoddoli yn ystod pandemig y Coronafeirws i helpu pobl yn eich cymuned.

Wrth i bethau fynd yn ôl i'r 'arfer', a hoffech chi barhau i wirfoddoli?

A ydych wedi mwynhau eich gwaith ac wedi datblygu awydd i wirfoddoli?

Mae llawer o opsiynau i chi – gallwch barhau i helpu'ch cymdogion neu eraill yn eich cymuned yn anffurfiol. Gallwch gymryd rhan mewn ymgyrchoedd ynghylch gwahanol faterion, megis tloedi bwyd a mynd i'r afael ag unigedd. Neu gallech wirfoddoli mewn digwyddiadau penodol. Mae llawer o grwpiau sydd eisoes yn bodoli sy'n chwilio am wirfoddolwyr i gynnig help llaw. Neu, efallai nad oes rhywun yn gweithio ar fater penodol sy'n eich pryderu chi, a'ch bod yn meddwl dechrau grŵp newydd.





Beth yw gwirfoddoli?

Mae gwirfoddoli yn weithgaredd:

- yr ydych yn ei wneud am ddim, drwy ddewis.
- sy'n cael ei gyflawni er budd y cyhoedd/cymuned.
- nad yw'n cael ei gyflawni er mantais ariannol.

Os yw unigolyn yn ymgymryd â gweithgaredd naill ai'n hanfodol neu dan fygythiad neu gosb, ni ystyrir gweithgaredd o'r fath yn wirfoddoli, hyd yn oed pan mae er budd y gymuned ac nad ydyw er mantais ariannol. Efallai fod yr unigolyn a'r gymuned yn ehangach yn elwa o brofiad o'r fath – yn rhai achosion mae'n ddechrau ar daith wirfoddoli gydol oes ac ni ddylid gwrthod cydnabyddiaeth briodol o'u gwerth i'r unigolyn na'r gweithgaredd. Wedi dweud hynny, mae'n hynod bwysig diogelu'r egwyddor y dylai gwirfoddoli fod yn fater o ddewis yn hytrach na gorfodaeth.

Gwirfoddoli Anffurfiol

Gwneir gwirfoddoli anffurfiol gan unigolion i bobl neu grwpiau cymunedol eraill, er efallai nad yw unigolion o'r fath yn ystyried eu hunain yn wirfoddolwyr bob tro. Mae'n cynnwys:

- Helpu cymdogion, gweithred gymunedol, cymryd rhan mewn grwpiau ffydd a chymunedol.
- Helpu mewn digwyddiadau lleol. Nid oes prosesau ffurfiol o ran recriwtio. I raddau helaeth, mae'r math hwn o wirfoddoli yn gudd yn ein cymunedau ond mae ei wreiddiau yn gryf yn niwylliant Cymru. Mae'n rhywbeth i'w ddathlu a'i annog.



Gwirfoddoli Ffurfiol

Mae gwirfoddoli ffurfiol yn cyfeirio at sefyllfaoedd lle caiff ymdrechion gwirfoddolwr eu sianelu drwy sefydliad. Weithiau, disgrifir sefydliadau o'r fath fel 'sefydliadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr'. Mae nifer o gyfleoedd gwirfoddoli yn addas i bawb, gyda sesiynau sefydlu a chefnogaeth briodol. Mae rhai yn ei gwneud yn ofynnol i wirfoddolwyr gael hyfforddiant helaeth am eu rôl (er enghraifft mewn gwaith cyngori, gwaith ieuencid gan gynnwys sgowtiaid a geidiaid, neu wasanaethau brys). Efallai fod rhai yn gofyn arbenigedd penodol neu gymhwyster blaenorol (er enghraifft nifer o gyfleoedd gwirfoddoli dramor). Gall gwirfoddoli fod yn ddigwyddiad un tro, am gyfnod byr, neu'n ymrwymiad tymor hirach.

 <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-01/volunteering-policy-supporting-communities-changing-lives.pdf>


Gall gwirfoddoli fod yn rhywbeth yr ydych yn ymrwymo i'w wneud yn barhaus – bob wythnos neu bob mis. Ond mae'r amser sydd gan nifer ohonom ar gael yn brin, ac felly ni allwn wneud ymrwymadau hirdymor. Gallwch wirfoddoli o hyd – efallai am ymgyrch tymor penodol, fel yr ydych wedi'i wneud yn ystod pandemig Covid efallai. Neu sefydlu deiseb i wneud gwelliannau i'ch ysgol leol. **Gallwch hefyd wirfoddoli yn nigwyddiadau un tro, megis teithiau cymunedol neu ddyddiau hwyl i blant.**

 <https://thirdsectorsupport.wales/resources/launching-a-petition/>

Cliciwch drwodd i:

 <https://thirdsectorsupport.wales/app/uploads/2021/01/Getting-Your-Message-Heard.pdf>

Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2016-17: Gwirfoddoli a Gofalu, mae **28% o bobl yn gwirfoddoli, naill ai'n ffurfiol neu'n anffurfiol yng Nghymru.**

 <https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-02/national-survey-wales-volunteering-and-caring-2016-17.pdf>

Mae gwirfoddolwyr yn gwneud cyfraniad sylweddol, mewn oriau di-dâl, at economi Cymru.

Amcangyfrifir bod oddeutu 938,000 o wirfoddolwyr yn cyfrannu 145 miliwn o oriau, bob blwyddyn, sydd werth £1.7 biliwn. Mae hyn gyfwerth ag oddeutu 3.1% o GDP Cymru (Adroddiad Cynllun Trydydd Sector Llywodraeth Cymru 2017 - 18).



Adran 2: Ymuno â Grŵp sydd eisoes yn bodoli

Felly, pa grwpiau sydd ar gael?

Mae mwy na chwarter o'r boblogaeth yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot yn wirfoddolwyr, yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016-17, 31% a 27%, yn ôl eu trefn. Yn Abertawe, roedd 3,718 o sefydliadau yn y sector elusennol/gwirfoddol ym mis Mehefin 2018, a 3,196 yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Yng Nghymru, roedd oddeutu 100,000 o bobl yn cael eu cyflogi yn y sector elusennol/gwirfoddol yn 2017.

(Ffynhonnell: WCVA – Porth Data'r Trydydd Sector).

Fel y gwelwch, mae llawer o grwpiau ar gael eisoes, felly yn ôl pob tebyg bydd un sy'n ymdrin â materion y mae gennych chi ddi-ddordeb ynddynt. Siaradwch â phobl yn eich cymuned i weld beth sy'n bodoli. A siaradwch â phobl yn unrhyw grŵp yr ydych chi'n credu a all fod yn ddifyr, i benderfynu a yw'r cyfle hwn yn addas i chi. Mae cymaint o grwpiau a chymaint o rolau. Efallai y dewiswch weithio gyda phlant sydd ag anghenion arbennig, yn eu helpu i wireddu eu potensial. Gallech helpu oedolion â'u llythrennedd, unrhyw beth o addysgu Saesneg i ffoaduriaid, i weithio gyda charcharorion i wella eu sgiliau darllen a mathemateg. Gallech fod yn gyfaill i bobl sydd angen rhywun i siarad gydag ef. Gallech weithio gydag anifeiliaid, gan helpu i'w hailgartrefu a'u cadw'n iach.

Gallech gymryd rhan mewn clybiau ar ôl ysgol neu ganolfannau cymunedol. Dan do, yn yr awyr agored, ar-lein, yn eich cymuned neu ledled Cymru – mae'r rhestr yn faith.

Gallwch gael rôl ymarferol, gan weithio'n uniongyrchol â chleientiaid; neu rôl cynllunio, fwy strategol fel ymddiriedolwr. Gallech fod yn rhan o grŵp llywio, yn helpu i lywio cyfeiriad grŵp yn y dyfodol.

Mae posibiliadau gwirfoddoli di-rif!

Ac os ydych yn ansicr, gallwch:

Edrych ar wefan Gwirfoddoli Cymru:

 <https://volunteering.wales.net>

Siaradwch â'r tîm yn y Ganolfan Wirfoddoli yn SCVS neu NPTCVS

 <https://www.scvs.org.uk/volunteercentre>

 <https://www.nptcvs.wales/volunteering/become-a-volunteer/>

Cewch apwyntiad gyda rhywun ar y tîm Gwirfoddoli, a fydd yn trafod eich diddordebau, argaeledd etc, ac edrych ar gyfleoedd posibl.



Adran 3: Sefydlu grŵp newydd

Gall sefydlu grŵp newydd fod yn brofiad hwyliog, ond gall hefyd fod yn llawer o waith. **Peidiwch ag ail-greu rhywbeth sydd eisoes yn bodoli!** A oes grwpiau eraill yn bodoli sy'n gwneud yr un peth?

Os nad oes – yn gyntaf, sefydlwch pam mae angen penodol am y grŵp a'i ddiben cyffredinol.

A yw pobl eraill hefyd yn gweld bod angen gwneud rhywbeth?

A oes digon o ddiddordeb, pobl, amser ac adnoddau ar gael i wneud hyn yn dda? Byddwch yn realistig!

A chofiwch – Mae pethau yn cymryd amser. Mae llawer o waith i'w wneud!

Siaradwch ag aelodau eraill y gymuned ynghylch yr hyn maen nhw'n credu sydd ei angen. Gellir gwneud hyn drwy gyfryngau cymdeithasol, cyfarfodydd cyhoeddus, ymgynghoriad, holiaduron etc.

Ar unrhyw bryd, boed ydych yn meddwl dechrau arni, neu os ydych yn grŵp sefydledig sydd â chwestiwn penodol, gall eich cyngor gwirfoddol sirol lleol eich helpu. Gallant ateb nifer o'ch cwestiynau – ac os nad ydynt yn gwybod, byddant yn mynd ati i ddod o hyd i rywun sydd yn gwybod!



Cyngor Gwasanaeth
Gwirfoddol Abertawe
www.scvs.org.uk



Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol
Castell-nedd Port Talbot
www.nptcvs.org.uk



Gweithredu yn y Gymuned – enghraifft

Fis Mawrth 2020 gwelwyd cynnydd cyflym yn y grwpiau cyd-gymorth Covid-19 ledled rhanbarth Bae Abertawe gyda phreswylwyr lleol yn gwirfoddoli i gefnogi'r bobl fwyaf bregus yn eu cymuned yn ystod pandemig y Coronafeirws. Nid oedd cymdogaeth Dwyrain Castell-nedd (a elwir yn lleol fel y Felin) yn eithriad, gyda mwy na 50 o wirfoddolwyr yn dod ymlaen i gynnig cymorth gyda thasgau bob dydd megis siopa, casglu presgripsiynau yn ogystal â chynnig cymorth emosiynol i'r rheiny sy'n teimlo'n unig.

Roedd yr ymdrech wirfoddol ryfeddol wedi'i chyd-lynu gan Gynghair Gymunedol F.A.N (Cyfeillion a Chymdogion), grŵp preswyl hirsefydledig sy'n hyrwyddo ymdeimlad o falchder a chyfrifoldeb yn eu cymuned. Mae F.A.N yn adrodd, o'r 50 o wirfoddolwyr newydd, bod mwy na hanner yn parhau â'u taith wirfoddoli drwy ymuno â'r sefydliad ac ymgymryd ag amrywiaeth eang o rolau.

“O ganlyniad i'r pandemig, mewn gwirionedd rydym wedi cael mwy o gynigion o gymorth nag sydd ei angen arnom! Gan weithio gyda'i gilydd, mae ein gwirfoddolwyr hen a newydd wedi meddwl am syniadau gwych i'r ardal.”

“Mae ein Gardd Gymunedol yn edrych yn well nag y mae wedi bod ers blynyddoedd, gallwn gynnig digwyddiadau ar-lein rheolaidd a chystadlaethau i blant lleol, rydym wedi datblygu prosiect bwyd cymunedol ac mae gennym gynlluniau cyffrous ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys sefydlu Rhwydwaith Cymydog Da. Rydym yn benderfynol o sicrhau bod yr ewyllys da, brwdfrydedd ac ysbryd cymunedol sydd wedi dod o sefyllfa negyddol (y pandemig) yn cael eu troi'n rhywbeth cadarnhaol ar gyfer dyfodol ein cymuned.”

Disgrifiodd Emma Knight,
Ymddiriedolwr Cynghair



3.1 Sefydlu fel grŵp

Os nad ydych wedi gallu dod o hyd i grŵp sydd eisoes yn bodoli sy'n mynd i'r afael â'ch materion, ac rydych yn meddwl sefydlu un. **Mae llawer o waith i'w wneud!**

Dechreuwch drwy gasglu gwybodaeth ynghylch y gymuned yr ydych yn gweithio gyda hi, ei chryfderau a'i gwendidau. Cofiwch, gall 'cymuned' fod yr ardal lle'r ydych yn byw, ond gall hefyd fod yn grŵp o bobl sydd â diddordebau cyffelyb (crefftau, pêl-droed, hanes); neu hunaniaeth (crefydd, gallu, rhywedd). Gall cymunedau fod yn wyneb yn wyneb neu'n rhithiol - neu'r ddau.

Beth sy'n peri pryder i bobl? Cofiwch, efallai nad yw eu materion yr un fath â'ch rhai chi. Edrychwch ar unrhyw broblemau sy'n cael eu hadnabod - beth yw'r achosion a'r effeithiau? Beth yw'r materion â blaenoriaeth y gellir mynd i'r afael â nhw yn realistig?

Dewiswch fan cychwyn:

- gosodwch nodau ac amcanion; targedau cychwynnol - beth, yn gyffredinol, hoffech chi ei wneud?
- adnabyddwch opsiynau posibl i gyflawni'r rhain - boed yn weithgareddau, ymgyrchu, rhwydweithio etc.
- chwilio am adnoddau posibl - pobl, sgiliau, lleoliadau, nwyddau, cronfeydd, etc.

A oes gan y grŵp/cymuned y gallu i gyflawni eu hamcanion?

Yn aml, mae'n well dechrau'n fach - o fewn eich capasiti realistig a'r adnoddau sydd ar gael - a datblygwch y prosiect yn araf.

A chofiwch - gallwch ddysgu llawer gan grwpiau eraill sy'n gwneud gwaith cyffelyb yn llefydd eraill. Cysylltwch a gofynnwch am eu hawgrymiadau gorau o ran beth y dylid ei wneud a beth na ddylid ei wneud. Mae'r rhan fwyaf o'r grwpiau yn hynod foddlon helpu grwpiau newydd i osgoi'r camgymeriadau maen nhw wedi'u gwneud!



3.2 Nid ydych chi ar eich pen eich hun – dod o hyd i bobl

Gallech geisio â gwneud pethau ar eich pen eich hun. Ond mae manteision cadarn dros weithio fel grŵp:

Trwy weithio gyda'n gilydd, mae'n bosibl cyflawni pethau nad ydych yn eu gwneud yn ddiangen ar eich pen eich hun.

- Drwy weithio gyda'ch gilydd, mae'n bosibl gwneud pethau na fydddech chi'n gallu eu gwneud ar eich pen eich hun.
- Gall y cyfan fod yn fwy na chyfanswm ei rannau, gan ddefnyddio sgiliau a dysg ei holl aelodau.
- Gall grwpiau fod yn fwy dychmygol nag unigolion - mae siarad gyda'ch gilydd yn eich helpu chi i feddwl am syniadau newydd a dysgu gan eich gilydd.
- Gall aelodau'r grŵp gefnogi ei gilydd - nid ydych ar eich pen eich hun, pan mae problem yn codi neu pan mae rhywbeth i'w ddathlu.

Cofiwch - Yr adnodd pwysicaf yn unrhyw grŵp yw ei bobl.

Cyn cynnwys gwirfoddolwyr eraill, mae'n werth treulio ychydig o amser yn ystyried sut ellir eu cynnwys orau yn y grŵp. Mae'n hanfodol i chi adnabod tasgau sy'n briodol i'r gwirfoddolwyr ymgymryd â nhw, cyn y broses recriwtio a dethol.

Felly, sut ydych chi'n dod o hyd i bobl?

Gwirfoddolwyr - efallai eich bod yn dechrau ar hyn gydag ychydig o gyfeillion, ond mae bob tro yn syniad da cael mwy o bobl. Mae cael ystod o bobl hefyd yn golygu bod gennych ystod ehangach o ddoniau a sgiliau y gellir eu cael mewn un unigolyn - sydd hefyd yn golygu y gallech weithio'n fwy effeithiol. Daw pobl wahanol â syniadau gwahanol - a all gynnwys pethau rhyfeddol na fydddech byth wedi'u hystyried!

Cliciwch drwodd i:



<https://thirdsectorsupport.wales/resources/recruiting-selecting-and-inducting-volunteers/>



3.3 Eich ymddiriedolwyr

Mewn grŵp elusennol neu wirfoddol, mae pobl sy'n rhannu cyfrifoldeb am lywodraethu'r grŵp a chyfarwyddo sut caiff ei reoli a'i redeg. Efallai y cânt eu galw'n 'ymddiriedolwyr', 'y bwrdd', 'y pwyllgor rheoli', 'cyfarwyddwyr'. Yn y grŵp, mae pobl yn ymgymryd â rolau gwahanol. Gall y rhain fod y rolau ffurfiol yr ydym yn gyfarwydd â nhw – cadeirydd, trysorydd ac ysgrifennydd. Efallai fod gan grwpiau gwahanol rolau sy'n benodol iddynt hwy – cydlynnydd ieuencid, swyddog archebu, rheolwr adeilad etc.

Mae recriwtio, dethol a sefydlu'r bobl sy'n gwasanaethu ar eich bwrdd neu bwyllgor rheoli yn un o'r prosesau pwysicaf y gall sefydliad gwirfoddol ymgymryd â hi. Bydd bwrdd cytbwys ac amrywiol yn rhoi cyfarwyddyd ac yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen i ddatblygu'r sefydliad.

3.4 Rydym ni i gyd yn canu yn yr un cywair – Cyflwyniad

Mae cyflwyniad yn 'air o groeso' ac yn baratoad at y rôl, ynghyd â llawer o wybodaeth y mae angen i bobl fod yn ymwybodol ohoni, efallai y bydd yn ffurfio rhan o broses asesu lle'r ydych yn cytuno ar y cyd â grŵp pa un ai a yw'r cyfle hwn yn briodol i chi. Mae hyn cynnwys pethau megis dibenion y grŵp, sefyllfa ariannol, rhaglenni gwaith, strwythur, polisiau, gweithdrefn gwyno, materion cyfredol, lle i fynd gydag unrhyw gwestiynau etc.

Cliciwch drwodd i:



<https://thirdsectorsupport.wales/resources/recruiting-selecting-and-inducting-volunteers/>



<https://thirdsectorsupport.wales/resources/recruitment-selection-and-induction/>



3.5 Hygyrchedd/cynhwysiant

Mae sicrhau bod holl aelodau'r gymuned yn rhydd i gyfrannu at y grŵp, pe dymunant wneud hynny, yn dwyn ynghyd ystod o sgiliau, profiadau, dulliau gweithredu a safbwyntiau sy'n bodoli yn ein plith. Mae angen i'ch grŵp fod yn hygyrch a chynhwysol. Yn **hygyrch**, fel nad yw pobl yn cael eu heithrio os yw eich cyfarfodydd neu weithgareddau yn cael eu cynnal ar amser na allent fynychu, neu mewn lle na allent ei gyrraedd, neu os nad yw eu Saesneg yn dda, etc. Yn **gynhwysol**, fel nad yw unrhyw un yn teimlo nad ydynt yn perthyn i'r grŵp.

3.6 Llywodraethu – strwythurau posibl

Mae sawl strwythur posibl i sefydliadau'r sector gwirfoddol/trydydd sector o gyfuniad sylfaenol o reolau (cyfansoddiad) i elusen gofrestrdig neu gwmni cofrestrdig. Yn ogystal, efallai y byddwch yn sefydlu fel Cwmni Buddiannau Cymunedol (CIC).

Am ragor o wybodaeth ynghylch strwythurau gwahanol a sicrhau eich bod yn dewis yr un gorau i'ch grŵp, siaradwch â'ch cyngor gwirfoddol sirol lleol.

CVS Abertawe

E-bost: scvs@scvs.org.uk

CVS Castell-nedd Port Talbot

 <https://www.nptcvs.wales/get-help/help-for-organisations/developing-running-an-organisation/>



3.7 Gwybodaeth

Mae angen i chi gadw llygad ar yr hyn sy'n digwydd – yn eich cymuned, mewn perthynas â'ch diddordeb penodol a gyda grwpiau'r trydydd sector/gwirfoddol yn yr ardal ac yng Nghymru.

Lle da i ddechrau yw gwefan eich grŵp gwirfoddol sirol lleol:

- yng Nghastell-nedd Port Talbot:
www.nptcvs.wales

E-fwletin newyddion misol, cyllid, hyfforddiant etc.

www.nptcvs.wales/e-bulletins

- yn Abertawe:
www.scvs.org.uk

E-fwletin newyddion misol, cyllid, hyfforddiant etc.

<https://www.scvs.org.uk/resources-and-communication>

3.8 Bod yn atebol

Mae'n hanfodol cadw pawb yn ymwybodol o sut mae pethau'n mynd gyda'ch cynlluniau a chynnydd. Mae hyn yn cynnwys aelodau o'r grŵp, y bobl yr ydych yn gweithio gyda nhw/eu helpu, ac unrhyw grwpiau allanol sy'n eich helpu chi – gallai hyn gynnwys cyllidwyr, busnesau lleol, eich cynghorydd lleol, etc.

Cofiwch: Mae pethau'n cymryd amser.

Ar ôl darllen y pecyn cymorth hwn, gallwch weld bod sefydlu grŵp newydd yn gofyn llawer o waith. Ond bydd rhai pobl yn clywed am eich grŵp ac yn meddwl bod popeth am fod yn weithredol yfory – os nad heddiw! Mae angen i chi barhau i roi gwybod i bobl beth sy'n mynd ymlaen, fel eu bod yn sylweddoli, ia – mae rhywbeth yn digwydd, ond efallai y bydd yn cymryd ychydig yn hirach nag yr oeddynt yn credu.

Bydd rhoi'r diweddaraf i bobl hefyd, ymhlith pethau eraill, yn helpu i gymell eich tîm, helpu i adnabod lle mae angen newidiadau, datblygu credadwyaeth i'r grŵp, rhoi cyfle i'r bobl yr ydych chi'n gweithio gyda nhw i ddweud eu dweud, a dangos i'r rheiny sy'n darparu adnoddau eich bod yn ddibynadwy.



Adran 4: Logisteg

Mae cryn dipyn o ofynion gweithredol wrth sefydlu grŵp ffurfiol, o ysgrifennu eich cyfansoddiad i sefydlu cyfrif banc ac ysgrifennu polisïau. Eto, gallwch geisio cyngor a chefnogaeth gan eich Cyngor Gwirfoddol Sirol lleol.



Cyngor Gwasanaeth
Gwirfoddol Abertawe
www.scvs.org.uk




Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol
Castell-nedd Port Talbot
www.nptcvs.wales

4.1 Cyfansoddiad

Mae angen cyfuniad o “reolau” arnoch i'r grŵp, i ddweud beth hoffech chi ei wneud a sut fydd y grŵp yn cael ei redeg. Dyma eich “cyfansoddiad” neu ddogfen lywodraethu. Mae angen cynnwys gwybodaeth weddol safonol yn hon, ond efallai ychydig sy'n benodol i'ch grŵp hefyd, yn dibynnu ar beth ydych chi am ei wneud. Gallwch gael cefnogaeth gyda hyn gan eich Cyngor Gwirfoddol Sirol lleol (manylion e-bost cyswllt uchod).

4.2 yfrif banc

Cael cyfrif banc yw'r ffordd orau o wneud yn siŵr bod arian eich grŵp yn cael ei gadw yn ddiogel. Mae'r rhan fwyaf o fanciau a chymdeithasau adeiladu y stryd fawr yn cynnig cyfrifon arbennig i grwpiau cymunedol. Bydd angen i chi gael o leiaf dau aelod o'r grŵp sy'n fodlon gweithredu fel llofnodwyr. Fel rheol, mae cyllidwyr yn gofyn i chi gael cyfrif banc lle mae'n rhaid i bob sic gael ei llofnodi gan ddau o bobl nad ydynt yn perthyn i'w gilydd.





4.3 Polisiau

Mae angen i'r grŵp sicrhau sawl peth – bod gwirfoddolwyr yn cael eu trin yn dda; bod pobl yr ydych chi'n gweithio gyda nhw yn cael eu cadw'n ddiogel; nad oes gwahaniaethu, etc. Ymdrinnir â'r rhain yn nogfennau polisi, a allai gynnwys pethau fel diogelu, cyfle cyfartal, yr amgylchedd, gweithio'n unigol, caffael, cwynion, treuliau gwirfoddolwyr, ac eraill.


Gallwch gael cefnogaeth gyda hyn gan eich Cyngor Gwirfoddol Sirol lleol.

4.4 Yswiriant

Mae gan aelodau corff llywodraethu ddyletswydd cyffredinol i ddiogelu'r sefydliad, gan gynnwys ei yswirio'n briodol.

Bydd lefel a math yr yswiriant sydd ei angen ar eich sefydliad yn cael ei bennu gan:

- Y Gyfraith – mae angen peth sicrwydd yswiriant dan statud ac mae peidio â'i gael pan mae ei angen arnoch yn torri'r gyfraith.
- Y ddogfen lywodraethu (cyfansoddiad) – gall gynnwys dyletswydd gadarnhaol i brynu yswiriant.
- Yr ystod a'r math o weithgareddau yr ymgwymerir â nhw gan eich sefydliad – megis yr asedau y mae'n berchen arnynt neu mae'n eu rheoli a pha un ai a oes ganddo staff a/neu wirfoddolwyr.





4.5 Iechyd a Diogelwch

Rhaid i chi sicrhau, hyd eithaf eich gallu, bod eich gwirfoddolwyr, staff, ymwelwyr a defnyddwyr oll yn ddiogel.



<https://thirdsectorsupport.wales/resources/health-and-safety/>

4.6 Diogelu/DBS

Mae diogelu yn gyfrifoldeb cyfreithiol ar bawb. Rhaid i bob gwirfoddolwr a gweithiwr gael dealltwriaeth sylfaenol o'r fframwaith cyfreithiol a threfniadol sy'n sail i ddiogelu, a gwybod beth yw cam-drin/niwed a'r arwyddion posibl. Yn ogystal, dylai gwirfoddolwyr/gweithwyr wybod beth yw eu cyfrifoldebau i'r unigolion maen nhw'n eu cefnogi, a sut i adrodd unrhyw bryderon a'r gweithdrefnau i'w dilyn.

Mae hyfforddiant ynghylch diogelu ar gael drwy eich cyngor gwirfoddol sirol lleol.

Os yw unrhyw un o'ch tîm – gwirfoddolwyr, staff ac ymddiriedolwyr – yn gweithio neu'n gwirfoddoli gyda phlant neu oedolion neu'n gwneud swyddi sydd wedi'u nodi mewn deddfwriaeth fel rhai sy'n gofyn DBS, mae'n bosibl y bydd angen i chi ystyried cynnal gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Dylid cynnal gwiriadau pryd bynnag mae'r swydd yn gymwys yn unig. Mae hwn yn defnyddio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS – CRB gynt). Mae lefelau gwahanol o wiriadau y gellir eu cynnal yn dibynnu ar y rôl yr ydych yn gwneud cais amdani. Gallwch gael rhagor o wybodaeth a chymorth gyda hyn gan eich cyngor gwirfoddol sirol lleol (CVC).

4.7 Diogelu data

Dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) 2016, rydym ni i gyd yn gyfrifol am sicrhau nad yw'r data yr ydym yn ei gadw ynghylch unigolion yn cael ei chamddefnyddio neu ei cham-drin. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth ynghylch enw a manylion cyswllt pobl, dyddiad geni, gweithgareddau – mewn gwirionedd unrhyw ddata personol yn eu cylch. Os oes gennych chi unrhyw fath o ddata ynghylch unigolion, bydd angen i chi gydymffurfio â GDPR.



Adran 5: Ceisio cymorth

5.1 Hyfforddiant

Mae hyfforddiant ar gael yn benodol i grwpiau'r trydydd sector/gwirfoddol, drwy eich asiantaeth wirfoddol sirol lleol. Mae bwrsariaethau ar gael ar gyfer grwpiau newydd.



Cyngor Gwasanaeth
Gwirfoddol Abertawe
<https://www.scvs.org.uk/training-programme>



Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol
Castell-nedd Port Talbot
<https://www.nptcvs.wales/get-help/help-for-organisations/access-training/>

Mae hyfforddiant perthnasol ar gael hefyd gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, WCVA. Dyma'r corff ymbarél i'r holl gynghorau gwirfoddol lleol yng Nghymru:



<https://wcva.cymru/training-info/>

5.2 Cyllid

Gall eich cyngor gwirfoddol sirol lleol eich cynorthwyo chi i ddod o hyd i gyllidwyr priodol a gwneud cais da.



Cyngor Gwasanaeth
Gwirfoddol Abertawe
<https://www.scvs.org.uk/funding>

or email funding@scvs.org.uk



Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol
Castell-nedd Port Talbot
<https://www.nptcvs.wales/get-help/help-for-organisations/find-funding/>

Gallwch hefyd ddefnyddio Cyllido Cymru sy'n llwyfan chwilio am gyllid a grëwyd gan Cefnogi Trydydd Sector Cymru. Mae'n caniatáu i elusennau, grwpiau cymunedol neu fentrau cymdeithasol yng Nghymru ddod o hyd i gyllid yn defnyddio peiriant chwilio ar-lein am ddim.

Gallwch chwilio am gannoedd o gyfleoedd cyllid benthyciadau a grantiau gan ffynonellau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, o grantiau bach i brosiectau cyfalaf mawr.



<https://funding.cymru/>



5.3 Monitro a gwerthuso

Felly, sut ydych chi arni?

A ydych chi'n cyflawni'r hyn yr ydych yn bwriadu?

Beth sy'n mynd yn dda iawn a beth y gallir ei wneud yn well?

Mae'n bwysig bod gennych syniadau pendant o'r dechrau o'r sefyllfa gyfredol yn eich cymuned, a'r hyn yr hoffech ei gyflawni.

Os nad ydych chi'n gwybod lle'r ydych yn dechrau, sut allwch chi wybod eich bod wedi cyrraedd?!

Yn yr un modd, mae angen i chi edrych ar sut ydych chi arni, yn barhaus – a ydych yn gwneud y gweithgareddau y gwnaethoch eu cynllunio?

A ydych wedi denu cymaint o bobl i'r prosiect ag yr oeddech yn gobeithio?

A yw eich gweithgareddau yn cael effaith? Os nad, pa newidiadau sydd angen i chi eu gwneud i wella pethau?

O bryd i'w gilydd, mae angen i chi stopio, cymryd gwynt ac edrych ar sut mae pethau'n mynd yn gyffredinol.

A ydych chi'n cyflawni'r hyn yr oeddech yn bwriadu ei wneud?

A ydych wedi defnyddio'ch adnoddau yn dda?

A yw'r hyn yr ydych chi'n ei wneud yn rhywbeth y mae pobl yn y gymuned ei eisiau?

Beth ydych chi wedi'i ddysgu gan hyn?

Petaech yn gwneud hyn i gyd eto, a fyddech chi'n gwneud pethau'n wahanol?



5.4 Cyd-gynhyrchu

“Mae cyd-gynhyrchu yn berthynas lle mae pobl broffesiynol a dinasyddion yn rhannu pŵer i gynllunio a chyflawni cymorth - gyda’i gilydd, gan gydnabod bod gan y ddwy ochr gyfraniadau allweddol i’w gwneud er mwyn gwella ansawdd bywyd i bobl a chymunedau”

(Cyd-gynhyrchu Cenedlaethol, Grwp Cyfeillion Critigol)

Casgliad

Dymunwn bob lwc i chi wrth sefydlu eich grŵp neu sefydliad newydd. Mae bodloni angen heb ei gyflawni yn rhywbeth hynod werth chweil i’w wneud, ond gall fod yn waith caled – mae pobl brofiadol yn Abertawe, Castell-nedd a Phort Talbot a all eich helpu chi bob cam o’r ffordd, felly peidiwch â bod yn ofn gofyn – codwch y ffôn!

Mae cyd-gynhyrchu wedi’i seilio ar 5 egwyddor:

1. Gwerthfawrogi pob cyfranogwr, a datblygu eu cryfderau.
2. Datblygu rhwydweithiau o gymorth ar y cyd.
3. Gwneud beth sy’n bwysig i’r bobl ynghlwm.
4. Datblygu perthnasoedd dibynadwy; rhannu pŵer a chyfrifoldeb.
5. Gall pobl gyflawni newid, a gall sefydliadau alluogi hyn.

Mae canolfan wybodaeth Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru yn <https://info.copronet.wales/>



Adran 6: Darllen Pellach

Sefydlu elusen

GOV.UK (www.gov.uk)

Bod yn ymddiriedolwr da

<https://www.gov.uk/government/publications/the-essential-trustee-what-you-need-to-know-cc3>

Recriwtio, dethol a sefydlu gwirfoddolwyr

<https://thirdsectorsupport.wales/resources/recruiting-selecting-and-inducting-volunteers/>

Recriwtio, dethol a sefydlu ymddiriedolwyr

<https://thirdsectorsupport.wales/resources/recruitment-selection-and-induction/>

Hygyrchedd/cynhwysiant

<https://www.disabilitywales.org/resources/way-go-toolkit/>

<https://thirdsectorsupport.wales/app/uploads/2021/03/Volunteer-Expenses.pdf>

<https://thirdsectorsupport.wales/app/uploads/2021/03/Volunteers-and-Welfare-Benefits.pdf>

'Llywodraethu' - strwythurau posibl

<https://thirdsectorsupport.wales/resources/principles-of-governance/>

<https://thirdsectorsupport.wales/resources/charitable-status/>

Cysylltiadau cymunedol/ dosbarthiad gwybodaeth/ adborth

<https://thirdsectorsupport.wales/resources/getting-your-message-heard/>

<https://thirdsectorsupport.wales/resources/guide-to-raising-awareness-growing-a-network-promotion-strategy/>

Bod yn atebol

<https://howcharitieswork.com/transparency-and-accountability/>

Cyfansoddiadau

<https://thirdsectorsupport.wales/resources/model-constitution-for-setting-up-a-small-charity/>

<https://www.gov.uk/setting-up-charity/governing-document>



Polisïau

<https://thirdsectorsupport.wales/resources/safeguarding-policy-guidance/>

<https://thirdsectorsupport.wales/resources/safeguarding-policy-template/>

<https://thirdsectorsupport.wales/resources/creating-a-volunteering-policy/>

<https://wcva.cymru/wp-content/uploads/2020/01/Equal-Opportunities-policy.pdf>

Yswiriant

<https://thirdsectorsupport.wales/resources/insurance/>

<https://thirdsectorsupport.wales/resources/volunteers-and-insurance/>

Iechyd a Diogelwch

<https://thirdsectorsupport.wales/resources/health-and-safety/>

Diogelu/DBS

<https://safeguarding.wales/>

<https://thirdsectorsupport.wales/resources/safeguarding-self-assessment-tool/>

<https://thirdsectorsupport.wales/resources/dbs-and-safer-recruitment-2/>

<https://www.gov.uk/dbs-check-applicant-criminal-record>

<https://www.gov.uk/find-out-dbs-check>

<https://wcva.cymru/wp-content/uploads/2020/01/How-to-access-DBS-checks.pdf>

Diogelu data

<https://thirdsectorsupport.wales/resources/data-protection-gdpr/>

Cyllid

<https://thirdsectorsupport.wales/resources/fit-for-funding/>

<https://thirdsectorsupport.wales/resources/online-fundraising-guidebook/>

Gwybodaeth

<https://thirdsectorsupport.wales/app/uploads/2021/01/Getting-Your-Message-Heard.pdf>

Monitro a gwerthuso

<https://wcva.cymru/impact-evaluation/>

Prosiect amlasiantaethol yw Cymorth Gwirfoddoli Gorllewin Morgannwg

sy'n creu adnoddau a rennir i ddatblygu gwybodaeth gwirfoddolwyr a sefydliadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr a'r gwaith o'u rheoli a chydlynu ar draws ardaloedd Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Ariennir gan Gronfa Adfer Gwirfoddoli Llywodraeth Cymru.

Partneriaid y prosiect yw:

Cyngor Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Cyngor Abertawe, Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe a Phartneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg.

**Am ragor o wybodaeth, ewch i:
www.westglamorgan.org.uk/wgvs**